WG35 .S.62

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR

## BARCH. JOHN GRIFFITHS,

Yr hwn a fu yn weinidog gwir ymdrechgar gyda'r Annibynwyr,

YN LLANWRTYD, BETHEL a MORIAH,

AM UGAIN O FLYNYDDOEDD,

*Ac a hunodd yn yr Iesu, Gorphenaf yr* 11*eg*, 1869,

GAN ROGER JONES, LLANWRTYD,

Brawd arall Isaac o Dreflys.

"Ié, pe rhodiwn ar glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed."

---

PRIS DWY GEINIOG.

---

ARGRAFFWYD GAN D. WILLIAMS, ABERHONDDU.

X2053094-01

# MARWNAD.

1 O angau hen elyn dynoliaeth,
Rwy'n teimlo rhyw hiraeth parhaus,
Ti aethost a gŵr o'n gafaelion,
Gwir ffyddlon ti wnaethost ryw drais;
A'i Griffiths Llanwrtyd wnaeth flaenu,
Rwy'n synu môr sydyn a hyn,
Mór ffraeth y gwnaeth ganwaith lefaru,
Ond wedi distewi 'n y glyn.

2 Yn ardal y Cefn a'r Pentre,
Bu'n byw ryw flynyddau tra maith,
Ac wrth gael ei fagu i fyny,
Gwnai lynu yn dyn wrth ei waith;
Anhawdd oedd adnabod yn hollol,
Ei fawredd neshaol yn awr,
Yn sydyn aeth wedyn i'r ysgol,
Yn raddol daeth fyny yn fawr.

3 Un ddysgodd oedd ef yn rhagorol
Fe fu yn yr ysgol yn faith,
Yr ieithoedd oedd wreiddiol fe'u dysgodd,
Cyn yr ymgymmerodd a'i waith;
Dyn cyflawn o bob gwybodaethau,
A'r hwn y gwnaeth angau roi 'gledd,
Nes gorfu ei roddi o'n hanfodd,
Yn rhiwfodd yngwaelod ei fedd.

4 Os troi wnaf i mewn i'r anedd-dy,
'R arferau gartrefu 'n y byd,
Os chwiliaf ei holl ystafelloedd,
Lle buodd gynt ynddynt hwy'n glyd;
Os chwiliaf o fewn ei lyfyrgell,
Lle 'r a'i heb ei gymmell mōr llon,
Ni welaf 'mo hono na'i glywed
Ei holl lyfrau sy'n gauad o'r bron.

5 Bu yno 'n astydio i bregethau,
Nid coglais ein clustiau a wnai,
Athrawiaeth oedd bur a bregethau,
Mae'n eisian 'n y Pentre ble mae ;
Fe gadd Mr. Griffiths feddygon,
I ddod atto yn gyson o hyd,
Ac iddo gwnaent roddi cyffeiriau,
'R fath orau fe allau 'n y byd.

6 Er pob peth all gwerthfawr gyffeiriau,
A'n hanwyl berthnasau i gyd,
Gwna angau heb unrhyw eithriadau,
I fyn'd a phob graddau o'r byd ;
Pregethau y gair bob amserau,
Ni adroddau storiau diles,
Nid anecdots byth gwn a hoffau,
Llefarau mewn golau a gwres.

7 Er myn'd i Moriah a Bethel,
A chapel Llanwrtyd lle clyd,
A'r Wern, fe fu yno 'n llafurio,
Ffarwelio wnaeth byth a hwy gyd ;
Gan Bethel roedd gafel fawr arno,
Anhawdd oedd ymatto ag ef,
Ac yntau mor gynnes a garau,
Bob rhai a wrandawai 'n y lle.

8 Bu mewn cyfundebau rwy'n credu,
Mewn dwy sîr yn nghymru'r un pryd,
A deuau faint bynag fai rhwystrau,
Bron i'r mawrion gyrddau i gyd ;
O hyd rwyf bron methu a chredu,
Na welaf ond hynny fy ffrynd,
Fel disgwyl gwna etto i ddyfod,
Er gwybod ei fod wedi myn'd.

9 Rwyf fel yn ei wel'd yn marchogaeth,
Môr brydferth heb drafferth fel bu,
Breuddwidio a chofio am dano,
Heb huno fawr ddau ddydd neu dri ;
Lle rhoddau gyhoeddiad doi atto,
Doedd eisiau petruso un pryd,
Os na byddau rhwystrau tra mawrion,
I'r cwrddau doi'n gyson i gyd.

10 Gwnai sylw o'r tlawd fel cyfoethog,
Un hynod o enwog oedd ef,
A gwnai yn ddiau elusenau,
Os gwelau fod eisiau 'n mhob lle ;
Doedd neb yn rhoi Griffiths i farw,
Pawb oedd am ei gadw yn fyw,
Trwy'r wlad gwel'd ei eisiau mae dynion,
Ond da yn mhob troion yw Duw.

11 Pa beth sydd yn bod rwyf am ofyn,
Mae dychryn yn llenwi fy mron,
Y cyfiawn o hyd sy'n mynd ymaith,
Mewn amryw gym'dogaeth fel hon ;
Caledfryn mewn dyffryn mae'n gorwedd,
Gwael agwedd mor rhyfedd yw 'r cwyn,
A Rees o Llanelly bu'n traethu,
Am Iesu yn nghymru mewn swyn.

12 A Price o Cwmllynfell wnaeth flaenu,
Mae'n cysgu mewn gwely mor wael,
Doedd nemawr o'i fath wnai bregethu,
Er chwilio holl gymru i'w gael ;
A Griffiths mi henwaf ef etto,
Anmhosib ei gofio heb glwy',
Bu gyda ni 'n hir yn llafurio,
Ond ffarwel ei wrando byth mwy.

13 Gofudus y teimlur trwy'r pentref,
Fod Griffiths yn eisiau mor hir,
Ac hefyd bron teimlo 'n amheus,
Fod fath beth galarus yn wir ;
Pan 'r af fi i'r capel bob amser,
Rhyw wagder wy'n wel'd trwy y lle,
Does neb gan y rhai a'i nhabydodd,
Yn rhywfodd wna 'i lanw fel fe.

14 O hyd mae hi 'n tywyllu ynghymru,
'R eglwisi sy'n colli 'r gwyr mawr,
Fu'n Sion yn hir weinidogion,
Ond gwisgant hardd goron yn awr ;
Yr unfedarddeg yn Gorphenaf,
Diweddaf gwnaeth angau roi clwy,
I amryw galonau 'n yr ardal,
Na well tra 'n yr anial bont hwy.

15 A'r nos y cwrdd gweddi chwenychau,
Gael myned cyn dechrau mae'n wir,
I weled y fan y gorweddau,
Ei briod ag yntau cyn hir;
Tan ddraenen wen oedd y man hwnw,
A byddau am farw mewn ffydd,
Ac yno fe'i rhoddwyd i orwedd,
O'r diwedd pan nodwyd y dydd.

16 Lle muriwyd ei feddrod yn barod,
I ddisgwyl ei briod i ddod,
Mae hi wedi gweled cyn yma,
Y lle mae'i gorweddfa i fod;
Bydd beddau yn barod i ninau,
Yn rhyw le na wyddom ni 'nawr,
Ni wyddom yr eiliad na'r fynud,
Ac hefyd ni wyddom yr awr.

17 Nol iddo fe fyn'd trwy yr afon,
A gado 'r gelynion oedd gryf,
Dechreuodd a'r ganu heb dewi,
Nol dianc heb foddi 'n y llif;
Pan 'r ydoedd yn glaf ar ei wely,
Bron methu ymddiddan un gair,
A'r geidwad gorweddau ei enaid,
Fan hono er poethed y pair.

18 O'r golled geir mewn cyfeillachau,
Fe welir ei eisiau fe'n hir,
Ac hefyd mewn cwrddau pregethu,
Bu ganwaith yn traethu y gwir;
Ac mewn cwrddau gweddi a'r canu,
Fe fu'n eu mynychu hwy gyd,
Mor ffyddlon yn Sion llafuriodd,
Tra rhodiodd ef yma 'n y byd.

19 Beth 'nawn, mae ei ddawn wedi tewi,
Rwy'n synu ynghanol ei waith,
Does dim iddei wneud ond boddloni,
Fel Eli yr Arglwydd a'i gwnaeth;
Dyn mawr ydoedd ef nid adnabu,
Neb yn ei eglwysi 'moi faint,
Er hyn bob rhyw bryd gwnai lefaru,
Fel gwnai adeiladu 'r holl Saint.

20 Ac hefyd 'roedd am wir ddychweliad,
Pechadur am fywyd at Grist,
Fe fydd ei wrthodwyr yn angau,
Yn wylo am eu beiau mor drist;
Beth wnawd o'r cynghorion gawd ganddo,
Ni wna roi un etto, beth wnawn?
A wnaethom i gyd eu hanghofio,
Heb geisio ei defnyddio hwy 'n iawn.

21 Mae Duw etto 'n aros yn ffyddlon,
Mae'r gweision yn gwahodd i'r wledd,
Gobeithio gwnawn frysio i'r cymod,
Fel byddom yn barod i'r bedd;
Bu'r dagrau yn treiglo ei ruddiau,
Wrth deimlo ei feiau yn flin,
Ond heddyw maent oll wedi sychu,
Gan Iesu sy'n Dduw ac yn ddyn.

22 Fath le mae fy nghyfaill hoff didwyll,
Diganwyll yw'r lletty lle mae,
Mae heddyw o fewn ei gul wely,
Heb unrhyw oleuni mae'n gau;
Ca'i gorph huno'n dawel a llonydd,
Ni chlyw lais gorthrymydd a'i glust,
A'i enaid a aeth i lawenydd,
Tragywydd ei Arglwydd a'i Grist.

23 Nid dyn un gyn'lledfa oedd Griffiths,
Dyn parchus trwy'r wlad oedd o'r bron,
Yn mhlith pob enwadau fel gartref,
Pob rhai ai gwyr garau môr llon;
Philosopher mawr oedd o brysur,
Trwy ymdrech a llafur a dysg,
Y dringodd efe i'r fath urddas,
Mwy addas ni cheir yn ein mysg.

24 Tangnefedd o fewn ei eglwysi,
Fu'n ffyny flynyddoedd tra maith,
Ni charau ef byth ryw groes dyny,
Heddychu bob pryd fyddau 'i waith;
Roedd ganddo ef olwg ryfeddol,
A'r heddwch cartrefol bob pryd,
A chafodd wel'd dynion tra ffyddlon,
Heddychlon tra bu yn y byd.

25 Nawr gwelir arwyddion galaru,
O fewn a capeli lle bu,
Waith colli gŵr oedd môr rhagorol,
Gwnai'r bobol eu gwisgo hwy'n ddu
Fe roddwyd y brethyn du'n addas,
Fe'i haeddodd o gwmpas ei arch,
O rhodder côf golofn yn brydlon,
Ar fedd y gwr ffyddlon er parch.

26 Llefared trwy'r oesoedd lle gorwedd,
Gwr llawn o dangnefedd mewn bedd,
Ac er ei roi lawr mewn gwael agwedd,
Caiff godi'r dydd rhyfedd mewn hedd ;
O'r galar i'r ddaear aeth Griffiths,
Trist a thorcalonus yw'r wlad,
I lawer yr oedd yn hoff gyfaill,
Ac eraill a'i teimlau fel tad.

27 Nawr dywedaf ddymyniad ugeiniau,
O ffyddlon aelodau'r ddau le,
Cael etto un wnelo'n blaenori
'R un fath, a phregethu fel fe ;
Câs ganddo ef oedd unrhyw gynwrf,
Roedd yn dangnefeddwr mor fawr,
Un blot ni chaid ar ei gymeriad,
Gwnai rodio mewn cariad bob awr.

28 Anhawdd ydoedd meddwl am Griffiths,
Gwr iachus a grymus fel fe,
Y buasai mor fuan yn mado,
A myn'd i breswylio'n y nef;
Dyn mwynaf, iselaf, difalchaf,
A'r blaenaf mewn llawer peth oedd,
Hanesydd, cyfieithydd, ac ieithydd,
A dywedau mor gelfydd ar goedd.

29 Mi ddywedaf yn ragor, bu'n gerddor,
A llenor, a llywydd mor llawn,
Os na chaid ei wel'd ef mewn cadair
Bob amser ni theimlid yn iawn ;
Boddlonwn a chofiwn bob amser,
Fod Duw i ni'n dyner a da,
Teg wylwn a gwir ymostyngwn,
A galwn am galon foddha.

30 Hawl Duw oedd dewisodd ei alw,
Pwy wyr well ? pur yw yn ei waith,
Wrth alw yr holl oreuolion,
A'i wâs aeth yn brydlon i'w daith ;
Os ydyw'r ser mawrion yn syrthio,
Mae'r haul etto yn aros yn glir,
Ac os gwna y ffrydiau i sychu,
Y ffynon a bery yn bur.

31 Wrth law mae gan Dduw ryw rai'n barod,
Pan syrthio gwyr hynod pob sir,
Gwna lanw y bylchau yn Sion,
Mae ei addewidion yn wir ;
Os rhodiwn fel mae'n angenrheidiol,
I fro'r hedd fry ni awn ar ei ol,
Ni awn i'r ail einioes yn inion,
Trist oedd y morwynion oedd ffol.

32 Er wylo y dagrau fel heli,
Ni cheir ef ond hyny'n y byd,
Mae'n hyder mor dyner am dano,
Caiff ganu heb wylo o hyd ;
Pan'r aethost ti gyntaf John Griffiths,
I'r byd sydd anhysbus i ni,
Meddyliaf pa fath gyfarchiadau,
Fu rhyngot ath ffryndiau sydd fry.

33 A ydwyt ti'n nabad pawb yna,
Sydd oll yn cyd wledda o'r bron,
Maent hwy mewn rhyw hwyl yn molianu,
Y gwr a fu'n gwaedu mor llon ;
Y corph gyda chyfeillion sydd newydd,
Y meirwon sy'n llonydd mewn llawr,
Pob un ag sydd yno wna huno,
Heb boen ac heb flino un awr.

34 Tra oer ydyw'r graian i orwedd,
Gwael rhyfedd yw'r gwely rwyt ti,
Dy geraint wna gwynion dra diflas,
Wrth gofio'r gymdeithas a fu ;
Ffarwel i berthnasau naturiol,
A phobol fy ngofal o'r bron,
Fy oes i oedd yna'n fyr rhyfedd,
Ond oes sydd ddi ddiwedd yw hon.

35 Gwaith ofer fydd coffa am danaf,
Ddychwelaf fi byth lle'r y'ch chwi,
Ond cofiwch ac na ryw ryfeddwch,
Chwi ddeuwch chwi bawb lle'r wyf fi ;
Nid aml roedd pan yn pregethu,
Wrth ddechreu'n dyrchafu ei lais,
Ond cyn ag y byddai'n terfynnu,
Dwys daer ni pryd hyn fai'n ei gais.

36 A'r dagrau yn treiglo ei ruddiau,
Fe floeddiau a theimlau i'r byw,
Fod dynion yn myn'd i'r trieni,
Gan sathru glan ddeddfau ei Dduw ;
Pur amal yn ardal y gorwydd,
Cyflwyno trwy fedydd a wnaeth,
A phan cai ei wahodd i gladdu,
Neu yntau i briodi fe ddaeth.

37 Wyth mlynedd a deugain ceir gweled,
Bu'r gwr hoff diniwed yn fyw,
Bu ugain o flwyddi o'r rh'eini,
Yn cryf athrawiaethu'n ein clyw ;
Nid yspryd y ffair a'i gorchfygau,
Ymdrechau yngwasanaeth ei Dduw,
Nid oedd iddei weled mewn ffeiriau,
Pan baent yn y Pentre bu'n byw.

38 Fe fu yn Caerludd a Llynlleifiad,
Yn traethu am gariad mor ddrud,
Yr hwn rodd ei einioes yn brydwerth,
Er mwyn rhoddi gobaith i'r byd ;
Pa un a'i y gogledd a'i 'r deau,
Cysegrau flynyddau e'i oes,
Yn mhob man lle byddai pregethau,
'R hwn ddaeth yn ein deddfle i'r groes.

39 Pur galed y bu yn ymdrechu,
I godi capeli hardd iawn,
Fe deimlai yn fraint wneud daioni,
Un oedd i ryfeddu o lawn ;
Dyn *round* fel yn *bound* oedd yn mhob man,
Dyn cyfan gwnai lanw ei le,
I bob rhyw gyfarfod fe ddeuau,
Pwy bynag fai'n eisiau nid fe.

40 Fodd mae Meistress Griffiths chwaer hawddgar,
Diau fod ei galar yn fawr,
Ond nid rhaid tristau fel heb obaith,
Mae ef yn fwy perffaith yn awr ;
Fe gadd Meistress Griffiths ei briod,
Fath ergyd rwy'n gwybod a chlwy',
Anmhosib bod dau mwy cariadus
A byw'n fwy cysurus na hwy.

41 Hoff ydoedd cymdeithas dra melus,
·Ei phriod cariadus a mwyn,
Ond mae ganddi briod 'nol etto,
Bob amser gwna wrando ei chwyn ;
Mae'n briod fydd byw yn dragywyddol,
Gwna i bobol roi arno 'i holl bwys,
Troi atto wna hi etto 'n gysson,
Mewn eirchion tra thaerion a dwys.

42 Nol codi i ran farwol ef yno,
O'r ty bu'n presw'lio'n ei rym,
Rhodd Williams yn angladd ein Griffiths,
Ryw benill galarus o hymn ;
Ac mlaen bob yn ddau yn dra ffyddlon,
Ai'r holl weinidogion mewn pryd,
I'r capel sydd newydd ei godi,
A'r dorf bron yn canu i gyd.

43 Pan gwnaeth Miestr Stephens weddio,
Rhyw lawer wnai wylo rwyn dyst,
A châdd Meistr Williams fawr fwyniant,
Wrth draethu gogoniant ei Grist ;
Awd mlaen at hen gapel Gelynos,
Heb aros i gladdu ein ffrynd,
Ugeiniau yn canu oedd yno,
Ac hefyd yn wylo wrth fyn'd.

44 A Cilsby Jones gladdodd yn barchus,
Nol rhoi corph ein Griffiths mewn pridd,
A Maurice gweinidog y baptist,
Weddiodd yn rymmus mewn ffydd ;
Tra bo dwfr hyfryd Llanwrtyd,
Yn rhedeg bob mynyd i'r môr,
Er gwella rhyw amryw glefydau,
Mae ynddo rinweddau yn stor.

45 Tra bo haul yn troi yn yr entrych,
A'r lloer yn rhoi llewyrch i'r byd,
Bydd enw John Griffiths gŵr parchus,
Yn wir anrhydeddus o hyd ;
Hyfforddau ef blant mewn societ,
Er cymmaint gwnai hyn ef yn fwy,
Bob pryd pan â hwy'r ymddiddanau,
Arferau eu geiriau bach hwy.

46 Nid ceisio cael geiriau mawr dyrus,
A wnai Meistr Griffiths un pryd
Mwy gwaith yw pregethu'n ddeallus,
Bob gair fel bo'n hysbus i'r byd ;
Mae pawb lle mae heddyw yn wresog,
Yn canmol eneiniog y Tad,
A byddant am byth yn rhyfeddu,
A chanu am rinwedd y gwad.

47 Rwy'n teimlo rhyw awydd gweddio,
Am fyn'd i breswylio yn eu plith,
A gwaeddi am grefydd wna'm codi,
A hollol ymwadu a rhith ;
Rhaid imi derfynu a'r fyrder,
A'i glod fwy na'r haner tan len,
Rhy fawr oedd i mi nawr i draethu,
Ei glod fel gwnai haeddu, Amen.

D. WILLIAMS, ARGRAFFYD, ABERHONDDU.